Creu **sugnwr**

Dyma ffordd clyfar i ddal trychfilod a'u gweld yn agos. A'r cyfan sy'n rhaid i chi ei wneud yw sugno!

Byddwch angen

- Cynhwysydd bychan clir â chaead iddo
- Morthwyl a hoelion neu siswrn (i wneud twll bach)
- Gwellt hyblyg
- Darn bach o ddefnydd tenau fel clwtyn cegin neu deits.
- Band elastig
- Clai

1 Gofynnwch i oedolyn wneud tyllau maint gwellt yng nghaead a gwaelod y cynhwysydd.

2 Torrwch chwarter isaf y gwellt, y rhan sydd ddim mor hyblyg. Cadwch y ddau ddarn.

3 Lapiwch eich clwtyn neu eich teits o gwmpas un pen o'r darn hiraf o'r gwellt a'i ddal yn ei le gyda'r band elastig.



4 Gwthiwch ben arall y gwelltyn hir drwy gaead y cynhwysydd fel bod y pen sydd wedi'i orchuddio yn y potyn.

5 Gwthiwch y gwelltyn bach drwy'r twll yng ngwaelod y cynhwysydd.

6 Gwthiwch y clai o gwmpas unrhyw le gwag.

7 Rhowch y caead ar y cynhwysydd. Rydych yn barod.

Dal trychfilod

Daliwch ben y gwelltyn byrraf dros eich trychfil a sugnwch ar y gwelltyn hiraf. Caiff y trychfil ei sugno i fyny.

Byddwch yn garedig efo'r trychfilod

Dewisiwch y trychfilod sy'n ddigon bach i gael eu sugno drwy'r gwelltyn. Peidiwch â'u cadw'n rhy hir – rhyddhewch nhw i'r fan lle cawsoch hyd iddyn nhw mor fuan â phosibl.

yn rhoi cartref i fyd natur

Mae'r RSPB yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, yn Yr Alban SC037654 040-1-0513-16-17
Lluniau gan Eleanor Bentall (rspb-images.com).